**Enw'r Ysgol: Ysgol Y Garreg** **Cyfeiriad: Llanfrothen, Penrhyndeudraeth, Gwynedd. LL48 6LJ**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Safonau yn dda erbyn diwedd CA2, gyda'r rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig ( 2 lefel ) o'r CS i CA2. Noder eu cyrhaeddiadau yn fanwl ar system asesu a thracio'r ysgol gyfan. Datblygir eu gwybodaeth, eu gallu i drafod, yn ogystal a'u syniadau personol. Wrth graffu ar waith y dysgwyr, gweler ei fod hefyd yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytun. Caiff safonau eu monitro yn ôl amserlen cylch 3 mlynedd yr ysgol.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**

Datblygir a defnyddir sgiliau Llythrennedd yn dda iawn drwy'r pwnc yn y CS a CA2. Gall pob disgybl gofnodi, esbonio a chynnig rhesymau dilys ar eu lefel eu hunain – ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn y Gymraeg a / neu'r Saesneg. Gweler ystod o ffurfiau ysgrifennu ee cerdd, disgrifiadau, mynegi barn, cerdyn post, gyda'r disgyblion â'r sgiliau priodol ar gyfer eu gallu i ymchwilio, darllen gwybodaeth cyfeiriol, a chofnodi. Symbolau marcio a'r defnydd o MPLl yn gyson drwy'r gwaith fel ag y mae ym mhob gwaith ysgrifenedig, llafar a darllen eraill.

Datblygir a defnyddir sgiliau Rhifedd yn briodol drwy'r pwnc yn y CS ac yn CA2. Gwneir hyn pan / os mae cyfle addas a pherthnasol wedi ei gynllunio i wneud hynny yn codi ee pellter a graddfeydd wrth drafod pererindod, oriau goleuni a phatrymau wrth drafod yr Hindwiaid.

Safonau TGCh yn datblygu'n dda, gyda'r disgyblion mwy hyderus a galluog i ymchwilio, cofnodi a chyflwyno eu gwaith gan ddefnyddio TGCh yn effeithiol. Enghreifftiau arbennig megis llyfryn gwybodaeth y Pasg, This is War, This is Peace, Mari Jones a'r Beibl.

Safonau AagD yn gyson dda gyda'r disgyblion yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i drafod, pwyso a mesur, cofnodi, dod i gasgliad, cyfiawnhau dewisiadau. ( ee cynllunio gwaith, llinell barn, rhestru deimwnt, MPLl, cyd asesu eu gwaith )

**Materion i gael sylw**

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Addysgir Addysg Grefyddol yn wythnosol. Cynllunio manwl a bwriadus yn sicrhau dysgu ac addysgu da. Cynlluniau yn cael eu

defnyddio'n dda i gynnig ystod eang o feysydd Addysg Grefyddol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. Fel cyd-lynydd y pwnc, mae gan yr athrawon gaffael arbennig ar wybodaeth bynciol, a sut i ddatblygu medrau'r disgyblion drwy'r maes.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
Defnyddir ystod eang o strategaethau ac adnoddau dysgu ac addysgu er mwyn sicrhau datblygiad cryf yn y medrau.

**Materion i gael sylw**

- Dengys ganlyniadau holiaduron disgyblion ( Mai 2014 ) nad oedd 30% o ddisgyblion CA2 yn mwynhau'r pwnc oherwydd eu bod o'r farn ei fod yn ddiflas. Gwnaed ymdrech yn dilyn hyn i sicrhau cynnwys mwy o weithgareddau mwy ymarferol yn yr unedau thema er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth yn ogystal a cheisio sicrhau eu mwynhad o'r pwnc.
- Parhau i sicrhau cynllunio bwriadus a manwl er mwyn cyflawni gofynion y Maes Llafur Cytun a gofynion y Ff Llythrennedd a Rhifedd.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy √ | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Aelodau o'r gymuned yn cynnal gwasaneth arbennig ( hwyliog, ymarferol, plant yn cymryd rhan, dilyn trefn gwasanaeth penodol ) yn wythnosol gan ddilyn cynllun 'Agor y Llyfr'.
- Ethos ac ymdeimlad arbennig yn ein gwasanaethau torfol – holl ddisgyblion yn hynod yn y dull maent yn dangos parch, gwrando yn rhagorol, cymryd rhan ac yn myfyrio.
- Addoli ar y cyd wedi ei gynllunio yn fwriadus er mwyn sicrhau datblygu sgiliau llythrennedd, gwybodaeth, trafod a mynegi barn, dangos empathi a goddefgarwch tuag at eraill. ee dilyn stori Moses, straeon am oddefgarwch yn ymwneud â hiliaeth, straeon ag iddynt wers i'w dysgu.
- Disgyblion CA2 yn mwynhau cymryd rhan gan wneud hynny yn hyderus ac effeithiol ee actio cymeriad, darllen, adrodd, myfyrio, cyflwyno.
- Trafodir a chyflwynir waith elusennau yn gyson gan gefnogi ystod o weithgareddau ariannol i helpu eraill. Yn ogystal caiff y disgyblion y cyfle i ddewis elusennau sydd i dderbyn ein haelioni ee Children With Cancer, Plant Mewn Angen, Save The Children, Bore Coffi Macmillan.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *SWWilliams* (Pennaeth)

Dydddiad: 26 / 1 / 15